# Templed Datganiad Terfyn Ffioedd

<table>
<tr><th colspan="3">Datganiad Terfyn Ffioedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Enw'r darparwr</td><td>Prifysgol Aberystwyth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Hyd y datganiad terfyn ffioedd a’r dyddiad y daw i rym</td><td>1 Awst 2027 - 31 Gorffennaf 2028</td></tr>
<tr><th colspan="3">Adran 1 - Lefelau Ffioedd</th></tr>
<tr><th colspan="3">Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu lefel y ffioedd a bennwyd ym mhob lleoliad</th></tr>
<tr><th>Lefel ffioedd</th><th colspan="2">Lleoliad y cwrs</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Y ffi uchaf reoledig</td><td colspan="2">Aberystwyth am 2027/28<br>• Israddedig Cartref (yn cynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)<br>• Meistr Integredig Cartref<br><br>Cyn gynted ag y cawn gadarnhad gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr a’r myfyrwyr beth yw lefelau rheoledig y ffioedd am 2027/28, ynghyd ag unrhyw gynnydd oherwydd chwyddiant ar gyfer y blynyddoedd astudio dilynol, ac fe gyhoeddir unrhyw ddiweddariadau ar ein gwefan. Bydd manylion diweddaraf y ffioedd perthnasol yn cael eu cynnwys yn ein dogfennau sy’n cynnig lleoedd ar gynlluniau astudio.</td></tr>
<tr><td colspan="2">2027/28<br>Coleg Gwent, Campws Brynbuga, NP15 1XJ<br>Baglor (BSc Lefel 6)<br>1 flwyddyn (ategol)</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **15% o'r ffi uchaf reoledig yn unol â chanllawiau Medr** | Aberystwyth am 2027/28<br><br>• Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor<br><br>Cyn gynted ag y cawn gadarnhad gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr a’r myfyrwyr beth yw lefelau’r ffioedd am 2027/28, ynghyd ag unrhyw gynnydd oherwydd chwyddiant ar gyfer y blynyddoedd astudio dilynol, ac fe gyhoeddir unrhyw ddiweddariadau ar ein gwefan. |
| **20% o'r ffi uchaf reoledig yn unol â chanllawiau Medr** | Aberystwyth ar gyfer 2027/28<br><br>• Blwyddyn integredig mewn diwydiant<br>• Blwyddyn integredig mewn ymarfer proffesiynol<br><br>Cyn gynted ag y cawn gadarnhad gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr a’r myfyrwyr beth yw lefelau’r ffioedd am 2027/28, ynghyd ag unrhyw gynnydd oherwydd chwyddiant ar gyfer y blynyddoedd astudio dilynol, ac fe gyhoeddir unrhyw ddiweddariadau ar ein gwefan. |
| **£7,730** | 2027/28<br>Coleg Gwent, Campws Brynbuga, NP15 1XJ<br>Sylfaen (FdSc Lefel 5) Astudiaethau Ceffylau<br>Cwrs 2 flynedd |
| **£9,000** | 2027/28<br>NPTC (Coleg y Drenewydd), Y Drenewydd, SY16 4HU<br>Sylfaen (FdSc Lefel 5) Amaethyddiaeth<br>Cwrs 2 flynedd |

| Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfansymiol |
| --- |
| Bydd Aberystwyth yn codi lefel uchaf y ffi reoledig ar Israddedigion a myfyrwyr Meistr Integredig Cartref amser llawn sy'n rhan o'r cynllun hwn.<br><br>Llywodraeth Cymru sy'n rheoli lefel y ffi uchaf. Y ffi honno am 2026/27 fydd £9,790. Bydd unrhyw gynnydd yn y ffi i fyfyrwyr Cartref amser llawn ar gyrsiau israddedig a Meistr Integredig ar gyfer 2027/28, a blynyddoedd dilynol y cwrs, ynghlwm â chynnydd yn uchafswm y ffi, a osodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd ffioedd cyfansymiol cyfnod cyfan y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen (mae rhan fwyaf ein rhaglenni israddedig yn para tair neu bedair blynedd), ac ar unrhyw flwyddyn ychwanegol ar y rhaglen, sef Blwyddyn Astudio Dramor (mae'r ffi ar hyn o bryd yn 15% o'r ffi reoledig uchaf) neu Flwyddyn mewn Diwydiant/Ymarfer Proffesiynol (sef 20% o'r ffi reoledig uchaf ar hyn o bryd), ac fe fydd yn dibynnu ar unrhyw gynnydd a fo'n gysylltiedig â chwyddiant, fel yr amlinellwyd uchod. Gellir cyfrifo'r rhain fel a ganlyn:<br><br>Cyfradd y ffioedd dysgu amser llawn blynyddol x nifer disgwyliedig y blynyddoedd ar gyfer y rhaglen = cyfanswm y ffioedd dysgu ar gyfer y rhaglen.<br><br>Bydd amrywiadau i hyn yn digwydd pan fydd cwrs yn cynnwys blwyddyn astudio dramor neu Flwyddyn mewn Diwydiant/Ymarfer Proffesiynol.<br><br>Ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys blwyddyn dramor:<br>Cyfradd y ffioedd dysgu amser llawn blynyddol x nifer disgwyliedig y blynyddoedd ar gyfer y rhaglen + 15% o gyfradd y ffioedd dysgu amser llawn blynyddol = cyfanswm y ffioedd dysgu ar gyfer y rhaglen.<br><br>Ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant/ymarfer proffesiynol:<br>Cyfradd y ffioedd dysgu amser llawn blynyddol x nifer disgwyliedig y blynyddoedd ar gyfer y rhaglen + 20% o gyfradd y ffioedd dysgu amser llawn blynyddol = cyfanswm y ffioedd dysgu ar gyfer y rhaglen.<br><br>Mae gwybodaeth am ein ffioedd i'w chael yn Ffioedd a Chyllid : Astudio gyda ni, Prifysgol Aberystwyth<br><br>Rydym yn anfon gwybodaeth at ymgeiswyr drwy amryw ddulliau, drwy'r ebost a'r post yn bennaf. Mae gwybodaeth benodol ynglŷn â ffioedd yn cael ei chynnwys yn y llythyrau cynnig a'r Pecynnau i Ymgeiswyr Llwyddiannus, yn ogystal ag mewn cyfres o negeseuon ebost at ymgeiswyr. |

Rydym yn eu cyfeirio at wefan y Brifysgol lle ceir gwybodaeth bellach. Ar ben hyn, mae gwybodaeth yn cael ei rhoi yn ystod digwyddiadau fel Dyddiau Agored a Dyddiau Ymweld.

## Awdurdodi'r datganiad terfyn ffioedd (sy’n ofynnol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi’r cais am ddatganiad terfyn ffioedd, mae’r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol):

i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu’r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

ii. yn cadarnhau yr ymgynghorwyd yn briodol â’r undeb myfyrwyr neu gyrff cynrychioli eraill, gan gynnwys y rhai sy’n astudio yn y darparwr ac mewn darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran, a’i fod felly’n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffioedd arfaethedig a’u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant

iii. yn cadarnhau bod costau ychwanegol cyrsiau (e.e. deunyddiau, teithiau maes) yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch, megis tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau o gynnig.

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad terfyn ffioedd hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;

v. yn cadarnhau bod yr holl gyrsiau cymwys y mae terfynau ffioedd statudol yn berthnasol iddynt (naill ai gan y darparwr neu ar ei ran) wedi’u hystyried yn y datganiad hwn, ni waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth;

vi. yn deall bod **rhaid** i unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y datganiad terfynau ffioedd, fel y’u cymeradwywyd gan Medr, gael eu hanrhydeddu;

vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;

viii. yn cadarnhau y bydd y darparwr yn sicrhau bod copi o’r datganiad terfyn ffioedd yn gallu cael ei wneud yn hygyrch i’w fyfyrwyr a’i ddarpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

ix. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Medr wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

| Cais am ddatganiad terfyn ffioedd i Medr[1] | |
|---|---|
| Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | 06/07/2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): |  Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor |
| Dyddiad: | 06/07/2026 |
| **Cais terfynol am ddatganiad terfyn ffioedd unwaith y mae Medr wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw faterion eraill (lle y bo'n berthnasol)** | |
| Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Dyddiad: | |

[1] **Rhaid** i ddatganiadau terfyn ffioedd a gyhoeddir ar wefannau'r darparwr gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan Medr yn unig.